

# JONES, JOHN ('Ivon'; 1820 - 1898), hynafiaethydd ac un o arweinwyr cylchoedd llenyddol a chymdeithasol Aberystwyth yn hanner olaf y 19eg ganrif

**Enw:** John Jones

**Ffugenw:** Ivon

**Dyddiad geni:** 1820

**Dyddiad marw:** 1898

**Priod:** Mary Jones (née Williams)

**Plentyn:** Jane Ivonia Evans (née Jones)

**Plentyn:** Hannah Edwards (née Jones)

**Plentyn:** Mary Davies (née Jones)

**Rhiant:** Hannah Jones

**Rhiant:** David Jones

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** hynafiaethydd ac un o arweinwyr cylchoedd llenyddol a chymdeithasol Aberystwyth yn hanner olaf y 19eg ganrif

**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

**Awdur:** Evan David Jones

Mab David a Hannah Jones, y Spite, Bethel, Mynydd Bach Llyn Eiddwen, Sir Aberteifi; ganwyd 10 Mai 1820. Cafodd yr ychydig addysg ffurfiol a ddaeth i'w ran mewn ysgol a gedwid ym Methel gan hen ecseismon, Owen Morris a fuasai'n ddisgybl i'r '[hen Syr](#)' yn Ystrad Meurig. Yn 1835, prentisiwyd ef i'w alwedigaeth fel groser yn un o siopau Lewis Jones, Canton House, Aberystwyth. Pan briododd yn Chwefror 1848 ymsefydlodd yn ei siop ei hun yn Princess Street, gan symud yn 1860 i Commerce House, Heol y Bont, lle bu'n byw bron hyd derfyn ei oes. Bu hefyd yn dal fferm y Waunrug ger Rhydyfelin, ac yn Ionawr 1873 collodd un o'i ddwylo mewn peiriant torri gwellt. O 1882 hyd 1897, efe oedd swyddog elusen Bwrdd Gwarcheidwaid Aberystwyth. Buasai am gyfnod aelod o gomisiwn gwelliant y dref, ond ym mywyd llenyddol Aberystwyth y bu amlycaf. Ymdaflodd â'i holl egni i'r bywyd crefyddol, llenyddol, a cherddorol cryf a ffynnai yn y dref pan ddaeth iddi yn llanc. Yr oedd yn flaenllaw yn yr ysgol Sul, ac yn y mudiad dirwestol a arweinid gan [John Matthews](#) tua 1836, ac yn 1861 yr oedd yn un o sylfaenwyr y Temperance Hall yn y dref. Perthynai i'r gymdeithas lenyddol frwd a gyfarfyddai yn y 'Shades,' tafarndy ym mhen uchaf Heol y Bont a droesid yn 'd dirwest.' Astudio gramadeg Cymraeg, cyfansoddi, darllen, a beirniadu barddoniaeth oedd rhaglen y gymdeithas. Er nad oedd Ivon ei hun yn gerddor, bu'n gefn i'r mudiad cerddorol yn y dref o dan [Edward Edwards](#), 'Pencerdd Ceredigion', drwy gyfansoddi a chyfieithu emynau a chaneuon, a chopïo sgoriau miwsig y gweithiau a berfformid gan gôr y [Pencerdd](#). Yr oedd yn un o sefydlwyr y 'Literary, Scientific, and Mechanics' Institute' yn y dref, 21 Mehefin 1850. Ef oedd ysgrifennydd eisteddfod genedlaethol Aberystwyth yn 1865, a chyflwynwyd medal aur iddo mewn gwerthfawrogiad o'i gyfraniad sylweddol at lwyddiant yr eisteddfod. Bu'n flaenllaw ym mudiad aflwyddiannus ei gyfaill '[Y Gohebydd](#)' (John Griffith) i godi cofgolofn i [Daniel Rowland](#) yn Llangeitho yn 1864. Daeth Commerce House yn fan galw yn Aberystwyth i feirdd, llenorion, a cherddorion Cymru, ac y mae yn y Llyfrgell Genedlaethol gasgliad o'u llythyrau at Ivon. Un o'i gyfeillion agosaf am hanner canrif oedd [Daniel Silvan Evans](#), a thra bu ef yn athro Cymraeg yn y coleg cyfarfyddent bob nos Lun. Un o ffrwythau'r cyfeillachau hyn oedd cyhoeddi [Ysten Sioned neu Y Gronfa Gymmysg](#) yn ddi-enw yn 1882. Arddelwyd y cydwaith ganddynt mewn ail argraffiad yn 1894. Edrychid ar Ivon fel awdurdod ar hanes Aberystwyth ac ar lôn gwerin y cylch. Cyhoeddodd loffion ac ysgrifau yn *Cymru (O.M.E.)*, yn arbennig o 1894 hyd ei farw. Bu farw 6 Medi 1898, a'i gladdu ar y 9fed ym mynwent y dref (claddesid ei law ym mynwent S. Mihangel). Mary (ganwyd 3 Chwefror 1823, bu farw 21 Ionawr 1895), merch John Williams, dilledydd yn Heol y Bont, oedd ei wraig, chwaer i'r Parch. John Williams, Aberystwyth. Ymhlith eu plant yr oedd tair merch, Mary yn wraig gyntaf i'r [Parch. J. Gwynoro Davies](#), Abermaw, Hannah yn wraig i'r Parch. John Edwards, Bae Colwyn, a Jane Ivonia yn wraig John Evans, cyfreithiwr a chlerc tref Aberystwyth. Claddwyd yr olaf ohonynt, Mrs. John Evans, yn ystod wythnos yr eisteddfod genedlaethol yn Aberystwyth yn 1952.

## Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

## Ffynonellau

*The Cambrian News and Merionethshire Standard*, 9 Medi 1898

*Cymru (O.M.E.)*, 1899

NLW MS 3291

## Darllen Pellach

THE LATE MR. JOHN JONES (IVON), Aberystwyth Observer, 22 September 1898

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [11821028](#)

Wikidata: [Q20733520](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

